



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad preifatrwydd: Gwybodaeth fonitro i Ddarparwyr

Er mwyn darparu gweithgareddau Gaeaf Llawn Lles bydd angen i chi ddarparu data personol. Llywodraeth Cymru fydd rheolwr y data personol a byddwn yn eu prosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod a freiniwyd i ni i helpu Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â datblygu polisi a gweithgareddau eraill a gynlluniwyd i gefnogi lles plant a phobl ifanc.

Bydd unrhyw ddata personol a drosglwyddir i Lywodraeth Cymru yn cael eu dileu dair blynedd ar ôl y dyddiad y daeth i law.

Byddwn yn defnyddio'ch data personol i wneud y canlynol:

- mesur pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn darparu eu gwasanaethau i blant a phobl ifanc;
- helpu i wella'r gwasanaethau hyn;
- cefnogi ymchwil ehangach i'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc (0 i 25 oed).

Byddwn hefyd yn defnyddio'ch manylion i gysylltu â chi i wneud gwaith dilynol a dysgu mwy am eich profiadau, i'n helpu i ddeall effaith y rhaglen. Mae cymryd rhan mewn ymchwil yn wirfoddol ac ni fyddwch yn cael eich adnabod mewn unrhyw adroddiadau.

Bydd y gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Os cysylltir â chi i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn, byddwch yn cael Hysbysiad Preifatrwydd ar wahân yn amlinellu sut y caiff gwybodaeth a gynhyrchir gan yr ymchwil ei chasglu, ei chadw a'i defnyddio.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd yr holl ddata a gesglir yn cael ei adrodd mewn fformat dienw pan gaiff ei ddefnyddio mewn adroddiadau ystadegol neu ymchwil. Ni fydd unrhyw adroddiadau yn cynnwys eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion. Bydd data cyfunol hefyd yn cael ei roi ar wefan data StatsCymru sydd ar gael yma: [Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU](#)

Hawliau'r unigolyn

O dan yr UK GDPR mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych:

- I gael gfael ar gopi o'ch data eich hun;
- I ofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- I wrthwynebu neu gyfyngu ar y prosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- I fynnu bod eich data yn cael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau);
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer / Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio eich data, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Y Tîm Polisi Chwarae
CP2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: CyfleoeddChwarae@llyw.cymru

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ,
E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn egluro ar ein gwefan sut mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r gyfraith diogelu data yn gweithio gyda'i gilydd. Ceir rhagor o wybodaeth yn: [Gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)